MC
MATERION
CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

NODWCH Y DYDDIAD YN EICH DYDDIADUR

Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer Gŵyl Bwyd a Diod Casnewydd Tiny Rebel eleni.

Nodwch y dyddiad hwn, sef dydd Sadwrn 6 Hydref, yn eich dyddiadur os hoffech fwynhau diwrnod llawn hwyl i'r teulu.

Hyn yn hyn, mae mwy na 15 o gynhyrchwyr bwyd a diod wedi cofrestru i fod yn rhan o'r digwyddiad yng nghanol y ddinas sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd bob blwyddyn.

Bydd amrywiaeth eang o gynigion bwyd a diod, gan gynnwys cynhyrchion llaeth organig a chigoedd gourmet, yn ogystal â chwrw a seidrau lleol i'w prynu.

Mae hyn yn cynnwys cynnyrch gan Fragdy Tiny Rebel sydd wedi ennill gwobrau, sef y prif noddwr am y drydedd flwyddyn o'r bron. Mae'r digwyddiad hefyd yn cael ei gefnogi gan Canewydd Nawr a Gwesty'r Celtic Manor.

Hywel Jones, sef prif gogydd gweithredol Gwesty a Sba Parc Lucknam, yw noddwr yr ŵyl ac unwaith eto mae'n rhan fawr o'r arddangosiadau coginio gan gynnwys cystadleuaeth y cogyddion ifanc, wedi'i noddi gan Westy'r Celtic Manor.

EICH CYFLE CHI I HELPU PONT GLUDO CASNEWYDD

Mae ymdrech codi arian fawr i ddiogelu dyfodol Pont Gludo Casnewydd angen cymorth gan gymunedau lleol.

Roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn llwyddiannus yn ei gynnig yn gynharach eleni i gael cyllid gwerth £1 miliwn o Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) er mwyn helpu i wneud gwaith atgyweirio hanfodol i'r bont a'r gondola Fictoraidd.

Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys adeiladu canolfan ymwelwyr newydd a gwella cyfleusterau ymwelwyr.

Ar ôl goresgyn y rhwystr cyntaf, mae angen i'r cyngor ddangos i CDL fod ganddo gefnogaeth i fynd ymlaen i'r ail rownd er mwyn ennill £9 miliwn arall i gwblhau'r gwaith.

Gyda chefnogaeth gan Gyfeillion Pont Gludo Casnewydd (CPGC), sy'n elusen gofrestredig, mae'r cyngor yn ymrwymedig i godi mwy na £100,000 yn ogystal ag ymgeisio am grantiau eraill i gefnogi'r apêl.

Gallai hyn gynnwys agor y bont ar gyfer digwyddiadau arbennig, y gellid cynnal rhai ohonynt gyda'r nos.

Mae'r Bont Gludo yn enwog ac mae llawer o bobl yng Nghasnewydd ac ar draws y byd yn ei charu.

Mae'r ffotograffydd sydd wedi ennill gwobrau, Chris Goddard, sy'n gweithio i adran Strydlun y cyngor yn gwneud ei ran yntau drwy ganiatáu i'w ddelwedd fuddugol o'r bont gael ei defnyddio ar gardiau post ac eitemau eraill i'w gwerthu yn y ganolfan ymwelwyr.

Dywedodd y Cyng Deb Harvey, aelod cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden Cyngor Dinas Casnewydd, fod cefnogaeth gyhoeddus yn hanfodol er mwyn i'r Bont Gludo barhau yn strwythur eiconig a diolchodd i Chris am ei haelioni yn gadael i'r apêl ddefnyddio'i ddelwedd o'r bont.

"Gwyddom gymaint sy'n caru'r Bont Gludo nid dim ond yng Nghasnewydd ond ledled y byd ac rydym yn lansio beth sydd yn ei hanfod yn gynllun codi arian torfol er mwyn sicrhau y bydd yn aros ar ei thraed ar lannau'r Afon Wysg am genedlaethau i ddod.

"Mae dros 145,000 o drigolion yn ein dinas, pe byddai pawb yn cyfrannu £1, byddem yn chwalu'r targed.

"Hoffwn ddiolch i Chris am chwarae ei ran i godi arian drwy ein galluogi ni i ddefnyddio ei ddelwedd wych.

"Mae hwn yn rhan o'n hanes a byddai'n wych pe byddai pawb yn teimlo mai eu Pont Gludo nhw yw hon hefyd a bod yn rhanddeiliaid ynddi i'r dyfodol. Byddem wrth ein boddau yn gweld digwyddiadau codi arian mewn ysgolion a chan fusnesau lleol yn ogystal â chyfraniadau gan bobl.

"Mae angen i ni ddangos i Gronfa Dreftadaeth y Loteri nad yw'n gwastraffu ei buddsoddiad a'n bod ni'n chwarae ein rhan i godi'r arian," meddai'r Cyng Harvey.

CYNNIG TŴR Y SIARTWYR

Bydd cais am westy newydd yng nghanol y ddinas yn cael ei ystyried gan bwyllgor cynllunio'r cyngor yn y dyfodol agos.

Mae Garrison Barclay Estates yn cynnig trawsnewid Tŵr y Siartwyr yn westy gyda champfa, man cynadledda, swyddfeydd a bwyty.

Mae'r adeilad talaf yng Nghasnewydd yn rhan o eiddo mawr sy'n gynnwys siop BhS gynt.

Mae'r cais hefyd yn cynnig bwyty a siop goffi llawr gwaelod yn ogystal ag addasiadau i'r unedau manwerthu sy'n wynebu Upper Dock Street, Austin Friars a Commercial Street.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn am y cynnig (rhif cyfeirnod 18/0465), a cheisiadau eraill yn **www.newport.gov.uk/planning**

DEBYD UNIONGYRCHOL - Y FFORDD HAWSAF I DALU TRETH GYNGOR

Wyddoch chi mai'r ffordd hawsaf a mwyaf diogel i dalu eich treth gyngor yw drwy ddebyd uniongyrchol?

Does dim ciwio, dim costau postio, dim angen cofio i dalu ac mae gennych chi ddewis o bedwar dyddiad talu - y 1af, y 5ed, y 12fed neu 20fed diwrnod y mis. Hefyd, os yw arian yn brin, gallwch ofyn i wasgaru'r costau gan dalu â debyd uniongyrchol dros 12 mis yn hytrach na'r 10 mis arferol.

Os nad ydych eisoes yn talu drwy ddebyd uniongyrchol, gallwch ddefnyddio'r ffurflen ar-lein i'w sefydlu yn **www.newport.gov.uk/counciltax**

ETHOL MAER A MAERES NEWYDD

Y Cynghorydd Malcolm Linton yw Maer Cyngor Dinas Casnewydd erbyn hyn hyd at fis Mai 2019. Ei wraig Sharon yw'r Faeres.

Penodwyd y cwpl yng nghyfarfod blynyddol y cyngor a gynhaliwyd ym mis Mai, lle yr ail etholwyd y Cynghorydd Debbie Wilcox yn Arweinydd y Cyngor.

Cafodd y Cyng Linton ei ethol gyntaf yn 2004 a bellach ef yw'r cynghorydd ward lleol ar gyfer Ringland. Mae'n eistedd ar y pwyllgor craffu a'r pwyllgor cynllunio.

Mae'n gweithio fel syrfëwr meintiau i Engie ac mae wedi gweithio ar brosiectau gyda Chynghorau Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae gan y cwpl dri o blant, eu mab Wayne a'u merched Donna a Kirsty.

Mae Mrs Linton yn edrych ymlaen at gefnogi ei gŵr i gyflawni ei ddyletswyddau dinesig ac maent yn cynllunio codi arian ar gyfer eu helusennau dewisedig, sef y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor ac Epilepsi Cymru.

Y Dirprwy Faer yw'r Cynghorydd Phil Hourahine sy'n cynrychioli ward St Julian ac mae'n llywodraethwr yn Ysgol St Julian ac Ysgol Gynradd Glan Usk. Mae'r Cyng Hourahine, sy'n beiriannydd siartredig, yn gadeirydd Cymdeithas Peirianwyr De Cymru ac mae hefyd yn gyfarwyddwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG).

Ei wraig Merille yw'r Dirprwy Faeres. Roedd hi ei hun yn gyn-gynghorydd ward St Julian, a hi hefyd oedd pennaeth Ysgol Fabanod Llyswyry nes iddi ymddeol.

MAE CYNNIG GOFAL PLANT CYMRU YN DOD I GASNEWYDD



O fis Medi 2018, bydd teuluoedd yng Nghasnewydd ymhlith y rhai yng Nghymru sy'n gallu hawlio 30 awr o ofal plant am ddim.

Bydd rhieni neu warcheidwaid cymwys yn y Gaer, Maesglas, Tŷ-du, Llyswyry, Malpas, St Julian's Stow Hill a Shaftesbury, yn gallu gwneud cais ar-lein o 24 Gorffennaf.

Mae cynllun Llywodraeth Cymru yn cael ei dreialu yn yr wyth ward hynny yr hydref hwn cyn ei gyflwyno'n raddol ar draws y ddinas.

Bydd yn cynnwys cyfuniad o ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen sy'n agored i bob plentyn tair a phedair blwydd oed a'r gofal plant ychwanegol a ariennir i deuluoedd cymwys.

Mae'n rhaid i rieni fodloni'r meini prawf canlynol:

- Bod â phlentyn tair neu bedair oed a all gael mynediad at addysg ran-amser
- Mae'n rhaid iddynt fod yn byw yn un o'r ardaloedd peilot yng Nghasnewydd
- Mae'n rhaid i'r ddau riant fod yn gweithio mewn teulu dau riant, neu'r unig riant mewn teulu un rhiant, ac yn gweithio 16 awr neu fwy, naill ai'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig

  NEU

- Rhaid eu bod yn ennill cyfwerth â gweithio 16 awr ar y cyflog byw cenedlaethol neu'r isafswm cyflog cenedlaethol

  NEU

- Yn derbyn budd-daliadau gofal penodol

I gael mwy o wybodaeth am y cynllun, ewch i **www.newport.gov.uk/childcareoffer**

NODYN ATGOFFA AM GASGLIADAU GWASTRAFF GŴYL Y BANC

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd a Wastesavers yn parhau i gasglu gwastraff ac ailgylchu ar ddiwrnodau arferol yn ystod wythnos Gŵyl Banc yr haf fis nesaf.

Mae hyn yn golygu y bydd casgliadau gwastraff gardd a biniau sbwriel yn mynd rhagddynt fel yr arfer yr wythnos yn dechrau dydd Llun, 27 Awst.

Bydd Wastesavers hefyd yn gweithio fel yr arfer yr wythnos hon, felly rhowch eich bag a'ch bocsys ailgylchu allan i'w casglu ar y diwrnod arferol.

Os hoffech wirio eich diwrnodau casglu yna dim ond clicio sydd angen i chi wneud. Mewngofnodwch ar wefan y Cyngor, nodi eich cod post a bydd y wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn ymddangos. **www.newport.gov.uk/Recycling**

YMGEISIWCH NAWR AM LE MEITHRIN

Bellach gall rheini plant a aned rhwng 1 Medi 2015 a 31 Awst 2016 wneud cais am le meithrin ar gyfer 2019.

Gallwch wneud ceisiadau ar-lein yn www.newport.gov.uk/schooladmissions rhwng nawr a 14 Medi 2018.

Mae defnydd am ddim o'r rhyngrwyd ar gael yn holl lyfrgelloedd Casnewydd. Mae cymorth ar gyfer ceisiadau ar-lein ar gael yng Nghanolfan Wybodaeth Casnewydd neu drwy ffonio 01633 656656. Am ymholiadau, anfonwch e-bost i school. **admissions@newport.gov.uk**

Bydd penderfyniadau'n cael eu cyhoeddi ar **30 Tachwedd 2018 i ddechrau ym mis Ionawr 2019.**

TAITH BIOBLITZ Y DU

Bydd y cyflwynydd teledu a'r naturiaethwr Chris Packham yn dod i Gasnewydd, fel rhan o'r archwiliad annibynnol cyntaf o'i fath yn y DU yn ymwneud â Gwyddoniaeth Dinasyddion.

Ei nod fydd dwyn sylw ar rywogaethau'r wlad sydd dan fygythiad.

Ar Ddydd Sadwrn 21 Gorffennaf bydd yn ymweld â Gwlyptiroedd Casnewydd a Mynwent St Gwynllyw, dau safle allan o 48 trwy wledydd Prydain y bydd yn ymweld â hwy fel rhan o ymgyrch Bioblitz y DU – dyw gwarchodfeydd natur ddim yn ddigon!

Mae diben difrifol i ymgyrch Bioblitz y DU – dyw gwarchodfeydd ddim yn ddigon!

Caiff canlyniadau archwiliad 2018 eu cofnodi i greu meincnod: bydd hyn yn help i fesur cynnydd a gostyngiad niferoedd y gwahanol rywogaethau sydd i'w gweld ar y safleoedd hyn yn y dyfodol.

Dechreuodd yn Ucheldiroedd yr Alban ar 14 Gorffennaf a, dros 10 diwrnod, bydd yn gwneud ei ffordd ar draws y DU.

Ym mhob safle bydd Chris a thîm Bioblitz y DU, sy'n cynnwys cannoedd o arbenigwyr, cadwraethwyr ifanc, gwneuthurwyr ffilmiau a phobl o bob cefndir a gallu, a gaiff eu cynorthwyo gan arbenigwyr rhywogaethau ysgwydd wrth ysgwydd ag amaturiaid brwdfrydig, i nodi'r rhai sydd yn ennill a cholli'r frwydr yng nghefn gwlad Gwledydd Prydain.

Dywed Chris Packham: "Rwy'n gwneud hyn am fy mod am danlinellu fod tirwedd y DU yn wynebu trafferthion lu. Dylai ein disgwyliadau fod lawer yn uwch i ddisgwyl gweld bywyd gwyllt o'n cwmpas drwy'r adeg ond yn anffodus mae'n rhaid i ni ymfodloni ar fynd i warchodfeydd natur."

Mae'r ymgyrch hefyd yn codi arian trwy gyllido torfol gyda'r holl arian a gaiff ei godi yn cael ei rannu rhwng y projectau cadwraeth ar y rheng flaen ar lawr gwlad yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr ymgyrch, yn ogystal â Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth.

Ewch i www.chrispackham.co.uk er mwyn dilyn y Bioblitz

TORRI RECORDIAU AC AMSEROEDD GORAU PERSONOL - BYDD

Daeth rhedwyr o bob rhan o'r byd i'n dinas ni ar gyfer Marathon Casnewydd Cymru ABP yn ôl ym mis Ebrill.

Ond dau redwr o Gymru groesodd y llinell derfyn gyntaf, gyda thorfeydd o gefnogwyr a chan dorri recordiau!

Gwnaeth Natasha Cockram, sydd bellach yn arwr lleol, osod record pob-cornel i fenyw drwy gael yr amser cyflymaf mewn marathon gan ddynes Gymreig ar dir Cymru. Enillodd James Carpenter am y tro cyntaf yn ei yrfa gystadleuol gan dorri 15 munud oddi ar ei amser gorau, i ddod yn bencampwr ein Marathon am y tro cyntaf erioed!

Diolch i waith clirio cynlluniedig, cafodd dros 1600kgs o wastraff ei gasglu gan gynnwys cardiau, plastigau, bwyd a dillad, a chafodd bron 89 y cant ohono ei ailgylchu.

Meddai'r Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd: "Roedd yr adborth gan gystadleuwyr, ymwelwyr a'r dorf yn bositif iawn - roedd hwn yn ddigwyddiad ardderchog wnaeth roi llwyfan i'n dinas. Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf yn barod!"

Gallwch gofrestru ar gyfer marathon 2019 nawr, fydd yn cael ei gynnal ddydd Sul 5 Mai 2019.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.newportwalesmarathon.co.uk

Brynhawn Sul, 2 Medi, bydd 120 o feicwyr proffesiynol gorau'r byd yn croesi'r llinell derfyn ar gymal cyntaf Taith Prydain OVO Energy 2018 yng Nghasnewydd.

Dyma fydd y trydydd tro i ras feicio proffesiynol Prydain ddod i Gasnewydd, ar ôl cynnal y daith yn 2004 ac aeth y ras drwy'r ddinas ar y ffordd i'r llinell derfyn y llynedd.

Bydd y cymal yn dechrau yn Sir Gaerfyrddin ac yn dirwyn i ben y tu allan i gampws canol dinas Casnewydd Prifysgol Cymru.

Bydd y beicwyr yn teithio drwy Frynbuga tuag at Gaerllion, i fyny Belmont Hill, i lawr Royal Oak Hill, troi i'r dde i Chepstow Road cyn troi i'r chwith i Somerton Road, ar hyd Nash Road a Southern Distributor Road cyn troi i Usk Way.

Bydd system cau ffyrdd dreigl ar waith, sy'n golygu y bydd modd ailagor rhan fwyaf o'r ffyrdd o fewn awr a hanner, a bydd clirffordd ar hyd y llwybr yn y prynhawn. Fodd bynnag, bydd y ffordd rhwng cylchfan yr Harlequin ar hyd Ffordd y Brenin ac Usk Way hyd at y gyffordd â'r A48 ar gau yn llwyr o fore bach hyd at hwyr y prynhawn. Bydd trigolion Alexandra Gate yn medru defnyddio'r ffordd tan yn gynnar y prynhawn.

Bydd maes parcio Friars Walk ar gau i'r cyhoedd, ond bydd meysydd parcio Ffordd y Brenin a Park Square ar agor.

Ar y diwrnod, bydd parcio arbennig ar gael i feiciau ym maes parcio Friars Walk i'r rheiny sy'n dod i'r ddinas ar gefn beic.

Ceir manylion llawn yn y map uchod neu yn

www.newport.gov.uk/cy/hafan.aspx

CASNEWYDD I GYNNAL CYMAL AGORIADOL RAS FAWREDDOG

Fol gael mwy o wybodaeth am y ffyrdd sy'n cau neu am y Daith, cysylltwch â **Christine Kyles** ar **01932** neu e-bostiwch **info@thetour.co.uk**

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd: *"Rydym yn gyffrous iawn am gael bod yn rhan o'r Daith unwaith eto ac yn addo rhoi croeso cynnes i'r cystadleuwyr i Gasnewydd wrth iddynt groesi'r llinell derfyn yng nghanol ein dinas. "Mae gan Gasnewydd dirwedd amrywiol iawn sy'n golygu bod Casnewydd yn ddelfrydol ar gyfer digwyddiadau o'r fath hon – o lwybrau gwastad, dinesig i riwiau a disgyniadau heriol drwy gefn gwlad hyfryd - rydym yn sicr y bydd y beicwyr, y cefnogwyr a'r gwylwyr yn mwynhau'r cymal a'u cyfnod yn ein dinas."*

Dywedodd Mick Bennett, Cyfarwyddwr Ras Taith Prydain OVO Energy: *" Fel cartref Beicio Cymru a Felodrom Cenedlaethol Cymru mae'n briodol bod cymal agoriadol 2018 Taith Prydain OVO Energy yn dod i ben yn y ddinas ac rydym yn edrych ymlaen at gael gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd a'u partneriaid i gynnal y digwyddiad."*

SBLASH MAWR

Bydd hwyl i bawb yn y Sblash Mawr eleni, sef gŵyl theatr stryd i'r teulu, fydd yn cael ei gynnal ar 21/22 Gorffennaf.

Gall ymwelwyr ddisgwyl penwythnos yn llawn perfformiadau cyffrous, cerddoriaeth fyw a digrifwch di-ri wrth i ddigwyddiadau gael eu cynnal mewn chwe pharth Sblash Mawr ledled canol y ddinas gan gynnwys Canolfan Gelfyddydau a Theatr Glan-yr-Afon a'r Wave.

Gallwch lawrlwytho rhaglen lawn yr ŵyl a map o'r ŵyl ar wefan Casnewydd Fyw

https://bigsplashnewport.com/

CADWCH Y PLANT YN BRYSUR DROS WYLIAU'R HAF

Bydd yn haf prysur iawn yng Nghasnewydd o ran cadw'ch plant yn hapus dros wyliau'r ysgol.

Bydd cynlluniau chwarae'r haf yn rhedeg o ddydd Iau 2 Awst tan ddydd Gwener 24 Awst, 10am tan 3pm.

I blant 5-12 oed. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd dros wyliau'r haf

www.newport.gov.uk/holidayfun

60+ OED AC ANGEN HELP I LANHAU GARTREF?

Bydd gwasanaeth am ddim o'r enw'r Attic Project yn helpu pobl 60+ oed i greu lle yn eu cartref.

Bydd gwirfoddolwr a gweithiwr achos yn cynorthwyo wrth ad-drefnu'ch eiddo i greu mwy o le fel y gallwch fyw'n fwy cyfforddus.

Mae'r Attic Project yn bartneriaeth rhwng Gofal a Thrwsio a GCG Cymru, a ariennir gan Gronfa Fawr y Loteri, sy'n helpu pobl i waredu eitem mewn ffordd sy'n dda iddyn nhw ac i'r amgylchedd drwy annog ailgylchu neu roi.

Mae nifer o resymau pam fod pobl yn cronni eiddo neu'n cael trafferth taflu pethau.

Gallai creu lle ei gwneud yn bosibl gwneud atgyweiriadau ac addasiadau sy'n cadw pobl yn gynnes neu'n gwella mynediad i'w cartref. Gall hefyd leihau'r risg o ddisgyn neu helpu gyda symud i eiddo llai a dod adref o'r ysbyty.

Gall trefnu eiddo ddod â llawer o atgofion yn ôl a gall fod yn heriol gadael mynd.

Mae'r gwirfoddolwyr yn helpu pobl drwy hyn. Gall cael cyfle i gofnodi a siarad am y straeon y tu ôl i hoff bethau fod yn broses werthfawr a chreu etifeddiaeth i'r teulu a'r gymuned.

I ddysgu mwy am yr Attic Project cysylltwch ag **Asiantaeth Gofal a Thrwsio Casnewydd ar 01633 233887**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio gyda Gofal a Thrwsio Casnewydd, asiantaeth gwella cartrefi, sydd hefyd yn rhoi gwasanaeth mân waith rhad i bobl dros 65 oed sy'n byw gartref; rhaglen addasiadau i bobl sy'n gadael yr ysbyty neu mewn perygl o fynd yno; help a chymorth.

DULL NEWYDD O DDARPARU AR GYFER PRESWYLWYR

Fis diwethaf, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Casnewydd gynllun i wella ac integreiddio gwasanaethau cymorth i breswylwyr.

Bydd hybiau cymdogaethol yn rhoi teuluoedd ac unigolion wrth galon y modd y gellir cyrchu gwasanaethau.

Caiff gwasanaethau cymunedol dal eu darparu'n yr ardaloedd sydd eu hangen fwyaf, ond yr hyb fydd y pwynt cyswllt cyntaf a bydd yn cydlynu gwasanaethau.

Dewiswyd Ringland fel y lleoliad cyntaf i dreialu'r model cyn ei gyflwyno i ardaloedd eraill.

Caiff Canolfan Gymunedol Ringland ei gweddnewid yn adeilad ar gyfer yr 21ain Ganrif gan ymgorffori Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y llyfrgell a phartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Bydd y lloerennau yn Alway, Somerton, Moorland Park (canolfan gymunedol Dwyrain Casnewydd) a St Julians (Canolfan Beaufort).

Cysyniad: sut y gallai Canolfan Gymunedol Ringland edrych

NETWORK RAIL

Bydd Network Rail yn cynnal gwaith atgyfnerthu ac adnewyddu hanfodol ar bont reilffordd Caerleon Road, rhwng 21 Gorffennaf a 30 Tachwedd 2018.

Y dilyn egwyl dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd bydd y gwaith yn ail-ddechrau i'r ail-gam yn Ionawr 2019 a dylai gael ei gwblhau yn 2019.

Bydd system rheoli traffig un lôn ar waith dros y cyfnod hwn.

Bydd mynediad i gerddwyr a beicwyr ar Caerleon Road yn cael ei gynnal drwy gydol y gwaith.

GWNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL AT 2019

Dylai plant a aned rhwng 1 Medi 2014 a 31 Awst 2015 ddechrau ysgol gynradd neu ysgol fabanod (dosbarth derbyn) ym mis Medi 2019.

YGallwch wneud cais am le o 5 Tachwedd 2018 i 14 Ionawr 2019. Os yw'ch plentyn mewn meithrinfa mae dal angen i chi wneud cais am le derbyn hyd yn oed os yw'ch plentyn yn mynd i feithrinfa'r ysgol y gobeithiwch y bydd yn mynd iddi am nad oes sicrwydd y caiff le.

Rhoddwn wybod am benderfyniadau o 16 Ebrill 2019.

Dylai ceisiadau am le mewn unrhyw un o'r Ysgolion Cynradd Catholig yng Nghasnewydd, neu i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles William, fynd yn uniongyrchol at yr ysgolion, NID drwy'r Cyngor.

Ewch i **www.newport.gov.uk/schooladmissions** i weld eich dalgylch.

Os yw'ch plentyn am ddechrau yn yr ysgol uwchradd ym Medi 2019 gallwch wneud cais am le o 1 Hydref 2018 tan 30 Tachwedd 2018. Rhoddwn wybod am benderfyniadau o 1 Mawrth 2019.

Cyflwynwch eich cais ar-lein drwy **www.newport.gov.uk/schooladmissions**

Dylech wneud cais i Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff yn uniongyrchol i'r ysgol. Mae gan holl lyfrgelloedd Casnewydd fynediad am ddim i'r we am y ddwy awr gyntaf.

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

MAE'R ARDALOEDD CHWARAE BELLACH AR AGOR

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cynnal gwaith ar uwchraddio ac adnewyddu dau faes chwarae.

Gwnaeth Maer Casnewydd, y Cynghorydd Malcolm Linton, agor y ddau safle yn sywddogol.

Mae gan y maes chwarae yn Turner Street offer ac wynebau chwarae newydd a chyllid Adran 106 sydd wedi talu am y rhain, wedi'i gyfrannu gan ddatblygwyr projectau cymunedol.

Mae'r gwaith yn costio £26,905 i greu lle chwarae ar gyfer plant ysgol iau.

Cafodd Turner Street ei agor yn swyddogol ddydd Gwener 8 Mehefin ac roedd aelod cabinet y Cyngor dros ddiwylliant a chwaraeon, y Cynghorydd Deb Harvey, a'r cynghorydd ward a'r dirprwy faer eleni, Phil Hourahine, yn rhan o'r digwyddiad.

Ddydd Gwener, 15 Mehefin, gwnaeth cae chwarae Home Farm yng Nghaerllion agor yn swyddogol.

Bellach, mae sleid, siglenni, siglydd â sbring a ffrâm ddringo yn y maes chwarae. Daeth arian gyfer adeiladu'r cae chwarae, oedd yn costio £20,000, o gyllid Adran 106.

Aeth y Cynghorydd Harvey a'r cynghorwyr ward Gail Giles, Jason Hughes a Joan Watkins i'r seremoni agor hefyd.

Cafodd y maes chwarae ei greu ar ôl ymgynghoriad ar dri dyluniad posibl â rhieni lleol a phobl ifanc a fu'n rhoi eu syniadau a'u hawgrymiadau ym mis Tachwedd 2017.

Gwrandodd y Cyngor ac mae'r canlyniadau ar waith heddiw ac yn cael eu mwynhau gan lawer o bobl ifanc leol.



DATBLYGU CREADIGRWYDD YN Y CELFYDDYDAU

Dewiswyd ysgol o Gasnewydd i gymryd rhan mewn project i feithrin a datblygu creadigrwydd yn y celfyddydau.

Mae plant o Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw ymhlith 32 o ysgolion a ddewiswyd i fod yn rhan o Daith Tate ac maen nhw eisoes wedi ymweld ag Oriel Tate Modern yn Llundain.

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor y Celfyddydau Cymru wedi ariannu rhaglen dysgu drwy'r celfyddydau creadigol gwerth £20 miliwn - cynllun gweithredu 2015-2020 i helpu miloedd o ddisgyblion a 548 o ysgolion yng Nghymru.

Mae Vicky Spray, arweinydd y project yn Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw, yn dweud y bu gwelliannau sylweddol mewn dulliau dysgu ym mhob rhan o'r ysgol ers iddi fod yn rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

"Gwnaeth y project helpu'r ysgol i ddatblygu profiadau dysgu creadigol cyfoethog a oedd yn ddiddorol i ddysgwyr, staff a theuluoedd ac a gynhwysodd y gymuned ysgol ehangach.

"Mae ein disgyblion wedi gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain wrth iddyn nhw fwynhau'r heriau y mae ein project wedi'u rhoi iddyn nhw. Mae hyn yn ei dro wedi datblygu hyder, gwydnwch a lles."

SÊR AUR I YSGOL YNG NGHASNEWYDD

Cafodd Ysgol Gynradd Glan Usk y sgôr 'rhagorol' ym mhob maes - y canlyniad gorau posibl - gan arolygwyr Estyn mewn adroddiad llawn canmoliaeth.

Dywedodd y pennaeth Jeff Beecher: *'mae'n bleser gennym ni gael y dyfarniad rhagorol ym mhob maes arolygu. Rwyf o'r farn mai'r gwaith caled parhaus gan yr holl staff a'n plant yn arbennig sydd i gyfrif am hyn, dros gyfnod sylweddol.*

"Rwy'n arbennig o falch bod y tîm arolygu wedi tynnu sylw at ein cwricwlwm ysbrydoledig a chyfannol a ddatblygom ni gyda'n disgyblion i ysgogi llwyddiant, a'r dysgu proffesiynol ansawdd uchel parhaus y mae'r holl staff yn rhan ohono i alluogi'r cynnydd rhagorol y mae pob un o'n plant yn ei wneud o'r amser y maen nhw'n dod atom ni.

"I raddau helaeth, y pwyslais enfawr rydyn ni'n ei roi ar les ein disgyblion, ein staff a'n rhieni sydd i gyfrif am lwyddiant parhaus pawb yn ein sefydliad dysgu ac rwy'n falch iawn o bob un aelod o'n cymuned ddysgu.

"Mae'n fraint gweithio gyda staff sy'n dangos ymroddiad ac ymrwymiad aruthrol i'w proffesiwn ac sy'n gwneud mwy na'r disgwyl bob amser i bob un plentyn yn ein hysgol hyfryd'.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Gail Giles, aelod cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros addysg a sgiliau, y pennaeth, y staff, y disgyblion a'r llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Glan Usk am yr adroddiad arbennig.

Jeff Beecher a'r tîm arwain disgyblion

Jeff Beecher and pupil leadership team

LANSIO PROJECT UCHELGEISIOL AR GYFER TIRWEDD UNIGRYW

Ym mis Mai, lansiwyd Partneriaeth Tirwedd Lefelau Byw yn swyddogol yn Sefydliad Lysaght yng Nghasnewydd.

Cafodd y bartneriaeth £2.5 miliwn gan y Loteri Genedlaethol yn ddiweddar am raglen waith a fydd yn helpu i sicrhau ac adfer Lefelau Gwent Hanesyddol Casnewydd, Sir Fynwy a Chaerdydd.

Mae RSPB yn arwain y bartneriaeth rhwng 12 sefydliad gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd.

Yn y lansiad, dywedodd Miranda Krestovnikoff, arlywydd RSPB a chyflwynydd teledu:

"Gyda'n gilydd, rydyn ni'n gobeithio ysgogi newid i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r dirwedd unigryw hon."

Roedd siaradwyr eraill yn cynnwys unigolion o'r gymuned a fu'n rhan o'r gwaith paratoi sylweddol ar gyfer y cynnig loteri.

Mae cynghorwyr y cabinet, y Cynghorydd Roger Jeavons a groesawodd gwesteion i'r digwyddiad, a'r Cynghorydd Jane Mudd yn cynrychioli'r Cyngor ar fwrdd Lefelau Byw.

I gael rhagor o wybodaeth am y project cyffrous hwn, ewch i

www.living.levels.co.uk

GWIRIAD IECHYD Y GIG

Mae Rhaglen Byw yn Dda, Byw yn Hirach, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi bod yn ymgymryd â cham cyntaf ei Rhaglen Gwiriad Iechyd Clefyd Cardiofasgwlaidd (CCF) yng Nghasnewydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Dyma raglen atal arloesol sy'n rhoi cyfle i ddinasyddion cymwys gael asesiad i bennu eu risg CCF yn y dyfodol a rhoi cymorth parhaus iddynt os oes angen er mwyn lleihau'r risg, y gellir ei wneud drwy newidiadau i ffordd o fyw.

Bydd dinasyddion cymwys yn derbyn llythyr gwahoddiad yn gofyn iddynt gysylltu â'r tîm Byw yn Dda, Byw yn Hirach er mwyn gwneud apwyntiad ar gyfer eu Gwiriad Iechyd.

Felly beth yw Gwiriad Iechyd? Meddyliwch am eich gwiriad iechyd GIG fel "MOT canol bywyd". Hyd yn oed os ydych yn teimlo'n dda, gallai problemau fod na allwch eu gweld. Mae Gwiriad Iechyd yn ymwneud â byw yn dda a byw yn hirach drwy atal strôc, clefyd y galon a chlefyd y siwgr.

Bydd y Gwiriad Iechyd yn cadarnhau pa un a yw systemau pwysicaf eich corff yn gweithredu'n iawn. Rhaglen atal ydyw sy'n gwirio eich risg, a hynny drwy nifer o brofion, er mwyn nodi'r tebygolrwydd yn y dyfodol ohonoch chi'n profi problemau cardiofasgwlaidd sylweddol ac mae'n rhoi cyngor a chymorth am yr hyn y gallwch ei wneud nawr i leihau eich risg.

Os ydych chi'n gymwys, hynny yw rhwng 40 a 64 oed, yn byw yn un o'r ardaloedd practis MT dynodedig o fewn Dwyrain neu Orllewin Casnewydd ac ar hyn o bryd ddim yn profi unrhyw broblemau iechyd CCF nac yn cymryd unrhyw feddyginiaeth nac ar gofrestr clefyd CCF, cewch wahoddiad i ffonio'r swyddfa Byw yn Dda, Byw yn Hirach i wneud apwyntiad. Bydd Gwiriadau Iechyd yn cael eu cynnal yn un o'r amryw leoliadau cymunedol lleol a ddefnyddir ar draws Casnewydd.

Felly beth mae Gwiriad Iechyd yn ei olygu? Bydd y Gwiriad Iechyd yn cymryd tua 30-40 munud, ac yn ystod yr amser hwnnw

gofynnir cwestiynau syml i chi am eich ffordd o fyw a'ch hanes teuluol. Cofnodir eich mesuriadau taldra, pwysau a gwasg ynghyd â'ch pwysedd gwaed, curiad, a phigiad sydyn i'ch bys er mwyn profi am golesterol a diabetes.

Cewch eich canlyniadau yn ystod eich apwyntiad ar ffurf cofnod iechyd personol i fynd adref gyda chi a chyngor a chymorth personol priodol o ran y ffyrdd gallwch chi leihau eich risg o broblemau yn y dyfodol. Efallai y cewch gynnig atgyfeiriadau at wasanaethau lleol os yw'n briodol ac at ein gwasanaeth llesiant parhaus am gyfnod o chwe mis, a all eich cefnogi chi i weithredu er mwyn lleihau eich risg yn y meysydd hynny yr hoffech wneud newid.

MWY YN YMUNO Â CHYNLLUN BLAENLLAW

Mae cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron, a arloeswyd gan gyngor y ddinas ac a ystyrir yn esiampl gan weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, yn dod yn fwyfwy poblogaidd.
Mae'r cynllun a lansiwyd yn gynharach eleni yn annog sefydliadau sydd â safleoedd ar agor i'r cyhoedd yng Nghasnewydd i gefnogi bwydo ar y fron drwy fod yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Bellach mae deg busnes a lleoliad wedi cofrestru'n ffurfiol ac mae mwy â diddordeb mewn ymrwymo. Cewch Groeso i Fwydo ar y Fron yn y lleoliadau canlynol:

- Horton's Café, Millennium Walk
- Malpas Court, Oliphant Circle
- Monusk Deli, Millennium Walk
- Mrs T's ym Mharc Beechwood

- Theatr Glan-yr-Afon a'r Ganolfan Gelfyddydau
- Ystafelloedd Te ym Marc Belle Vue
- Tiny Rebel yn Nhŷ-du
- Tŷ Tredegar
- Gorsaf Wybodaeth
- Canolfan Ddinesig.

Caiff ei ariannu gan Gyngor Dinas Casnewydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
Dysgwch fwy am y cynllun, gan gynnwys sut i gofrestru neu sut i roi awgrymiadau.

Visit **www.newport.gov.uk/en/Breastfeeding-welcome**

TRECHU TLODI MISLIF

Rhoddwyd cefnogaeth unfrydol, drawsbleidiol gan gynghorwyr dinas Casnewydd ar gyfer cynnig i ystyried darparu nwyddau hylendid i ferched a menywod ifanc a hynny am ddim mewn ysgolion.

Mae gwaith ymchwil yn cael ei gynnal, gan gynnwys gydag ysgolion uwchradd, er mwyn ceisio canfod hyd a lled y broblem ac i sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu at y rhai hynny sydd ei angen.

Meddai'r Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd:

"Mae tystiolaeth anecdotaidd bod hon yn broblem wirioneddol i rai merched a'u teuluoedd ac mae'n bwysig ein bod ni'n dysgu mwy fel y gallwn eu helpu.

"Nid mater o argyfwng mo hyn, lle mae ysgolion eisoes yn helpu, ond yn hytrach problem o fis i fis, sy'n cael effaith sylweddol ar fywydau ac addysg rhai disgyblion.

"Pan fydd canlyniad y gwaith ymchwil gennym, gallwn benderfynu ar y ffordd orau i roi cymorth mewn ffordd sy'n cyrraedd y rhai hynny sydd ei angen heb achosi embaras na gofid."

Roedd y cynnig a gyflwynwyd i'r cyngor gan y Cynghorydd Wilcox ym mis Ebrill yn galw am ymchwil i argaeledd cynhyrchion glanweithiol am ddim mewn ysgolion uwchradd fel cydnabyddiaeth

"eu bod yr un mor hanfodol â phapur tŷ bach ar gyfer hylendid personol disgyblion benywaidd".

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i un o bwyllgorau craffu'r cyngor a gall ei aelodau wneud argymhellion i'r cabinet.

DIGWYDDIADAU

Mae llawer o bethau i'w gweld a'u gwneud dros y mis nesaf yng Nghasnewydd, gan gynnwys…

THEATR GLAN YR AFON
01633 656757
www.newportlive.co.uk/riverfront
Gwener 20 Gorffennaf
Sinema, Sgrîn Arian: Big Taniwch y Sblash Mawr eleni gyda holl hwyl y ffair yn Big.

ORIEL GELF LLYFRGELL AC AMGUEDDFA CASNEWYDD
www.newport.gov.uk/heritage
Ymlaen nawr tan 15 Rhagfyr
Arddangosfa: 50 Mlynedd ar Sgwâr John Frost
Mynediad am ddim

Ymlaen nawr tan 29 Rhagfyr
Arddangosfa: Baneri'r Bleidlais i Fenywod
Mynediad am ddim

THEATR Y DOLMAN, KINGSWAY, CASNEWYDD
01633 263670
www.dolmantheatre.co.uk
Gwener 20 Gorffennaf
Te Pnawn 2
Digwyddiad Te Pnawn yng Nghyntedd Theatr y Dolman am 2.30pm gan gynnwys Cabaret newydd sbon gyda chaneuon o'r 1930au gan Berlin, Gershwin, Coward, Porter ac eraillll.

GWLYPTIROEDD CASNEWYDD
Dydd Sadwrn 21 Gorffennaf, Gweithgareddau o 10am - 5pm
Chris Packham a Bioblitz y DU
Bydd y cyflwynydd teledu a'r naturiaethwr Chris Packham yn galw heibio i Warchodfa Natur Genedlaethol Gwlyptiroedd Casnewydd fel rhan o'i ymgyrch Bioblitz drwy'r DU - 'Nature reserves are not enough!'
Mynediad am ddim

Dydd Llun 23 Gorffennaf - Ddydd Iau 26 Gorffennaf
Rhyfeddodau Dan y Dŵr
Galw heibio: 10.30am – 12pm neu 2pm - 3.30pm
Mynediad: Aelodau'r RSPB £4.40 / pawb arall £5.50

Dydd Llun 30 Gorffennaf - Ddydd Iau 9 Awst
Creu Mes gyda'r Mesolithig – Gweithgareddau Hwyliog
Cyn-hanesyddol o Oes y Cerrig **- 10.30am – 12 a 2pm – 3.30pm.**
Mynediad: Aelodau'r RSPB £4.40 / pawb arall £5.50